TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET Y CYNGOR/ COUNCIL CABINET DECISION NOTICE

Dyddiad/Date 20140429

PWNC / SUBJECT
Eitem 6 - Strategaeth Wastraff – Newid i Gasglu Gwastraff Gweddilliol
Item 6 - Waste Strategy - Change to Residual Waste Collection

PENDERFYNIAD / DECISION

Newid casgliadau gwastraff gweddilliol trigolion Gwynedd i amlder o 3 wythnos.
To change to 3 weekly collection of residual waste from Gwynedd's residents.

Rhesymau dros y penderfyniad / Reason for the decision:-

Mabwysiadwyd Strategaeth Wastraff y Cyngor am y cyfnod 2010 hyd at 2025 yng nghyfarfod y Cyngor ar 21 Ionawr, 2010.

Amcan y Strategaeth Wastraff yw amddiffyn yr amgylchedd a sicrhau cymunedau cynaliadwy. Gellir crynhoi'r Strategaeth Wastraff fel a ganlyn:

'i leihau ar y gwastraff a gynhyrchir ac i leihau yn sylweddol ar ein dibyniaeth ar dirlenwi drwy gynyddu lefelau ailgylchu a chompostio gwastraff'.

Mae'r Strategaeth Wastraff yn cynnwys 12 cam i'w gwireddu er mwyn ei chyflawni. Mae'r cam dan ystyriaeth y Cabinet hwn fel a ganlyn:

Lleihau ar y cynhwysydd gwastraff gweddilliol (2010 ymlaen)

- *bin gwyrdd presennol safonol yn 240litr – angen ei adolygu oherwydd*
  gostyngiad yn ei ddefnydd
- *ystyried yr opsiwn o newid amlder casglu.*

Ar hyn o bryd cesglir gwastraff gweddilliol o dai Gwynedd drwy ddefnydd bin
gwyrdd maint 240 litr (neu 3 bag du) ar amlder pob bythefnos h.y. pob yn ail
wythnos gyda'r bin gwastraff gardd (bin olwyn brown).

Mae arolygon diweddar o gynnwys biniau gweddilliol trigolion Gwynedd yn

dangos bod yn agos i 50% o'r gwastraff yn y bin yn wastraff bwyd a gwastraff hawdd ei ailgylchu, er y ddarpariaeth wythnosol ar gyfer casglu'r deunyddiau hyn. Mae'r ffaith bod y gwastraff hwn yn y bin gweddilliol yn mynd i dirlenwi yn peryglu'r Cyngor o safbwynt mynd dros ei Lwfans Tirlenwi ac yn rhwystro'r Cyngor rhag cyrraedd ei dargedau statudol ailgylchu – gyda'r posibiliad o ddenu dirwyon sylweddol o ganlyniad.

Ar lefel ailgylchu o 51.25% yn 2012/13, daeth Cyngor Gwynedd o fewn trwch blewyn i dderbyn dirwy o £123,200 gan Lywodraeth Cymru am fethu â chyrraedd targed statudol 52% am y flwyddyn. Bydd angen cyrraedd lefelau ailgylchu 58% yn 2016 a 70% erbyn 2025, ac mae angen cyflwyno'r newid er mwyn cael sicrwydd o gyrraedd y targedau hyn.

Os yw'r Cyngor am gyflawni'r Strategaeth Wastraff, cyrraedd targedau statudol o safbwynt lwfansau tirlenwi a lefelau ailgylchu ac osgoi dirwyon sylweddol ar y Cyngor – mae'n rhaid cyflwyno newid i'r drefn bresennol o gasglu gwastraff gweddilliol o eiddo domestig yng Ngwynedd.

Wedi ei gyflwyno drwy'r Sir, rhagwelir bydd y drefn newydd o gasglu gwastraff gweddilliol ar amlder o 3 wythnos yn galluogi'r Cyngor wneud arbedion sylweddol oddeutu £350,000 y flwyddyn. Mae hyn wedi cymryd i ystyriaeth oblygiadau gwneud darpariaeth ar gyfer eithriadau fel casglu clytiau pob pythefnos, casglu pob pythefnos mewn ardaloedd a phoblogaeth myfyrwyr uchel a darparu biniau mwy o faint i deuluoedd mawr.

Yn sgil y sefyllfa ariannol dybryd sy'n wynebu'r Cyngor yn ystod y 4 blynedd nesaf, gyda'r posibiliad o hyd at £50 miliwn o leihad yng nghyllideb y Cyngor dros y cyfnod, byddai sicrhau'r arbedion sy'n deillio o'r newid hwn o gymorth sylweddol ac o fantais i'r Cyngor.

Cynhaliwyd Arolwg Panel Trigolion ac Arolwg Cyhoeddus, Ymgysylltu ac Aelodau a Grwpiau Ffocws a'r prif ganfyddiadau oedd:

- Dros 90% o bobl Gwynedd yn cytuno y dylai'r Cyngor gymryd camau i annog mwy o bobl i ailgylchu a chompostio er mwyn osgoi dirwyon.
- Yr angen am wybodaeth glir a syml yn egluro trefniadau ailgylchu yn neges bwysig.
- Yr angen hefyd i addysgu plant am ailgylchu er mwyn iddynt hwy fynd â'r neges adref wedi ei bwysleisio'n gyson.
- Yr un yw pryderon trigolion ac aelodau ar draws Gwynedd am yr opsiwn posib o gasglu gwastraff gweddilliol pob tair wythnos ond fe nododd tua 47% o drigolion na fyddai ganddynt bryderon o gwbl.
- Y pryderon a nodwyd yn cynnwys pryderon am iechyd a diogelwch

megis clytiau a biniau'n drewi; pryderon ymarferol am y gwasanaeth a phroblemau mewn ardaloedd arbennig neu i grwpiau neilltuol megis tai haf a thai myfyrwyr.
- Potensial i gynyddu defnydd o'r gwasanaeth compostio bwyd wythnosol wrth edrych sut mae annog mwy o bobl i newid eu hymddygiad

Bydd gan y Tim Ymgysylltu rôl allweddol o hyn ymlaen wrth wireddu'r Cynllun Ymgysylltu fydd ei angen ar gyfer cyflwyno'r newid. Prif amcan hyn fydd marchnata'r gwasanaeth ar ei newydd wedd ac annog cyfranogaeth a newid mewn ymddygiad. Bydd llwyddiant cyflwyno'r newid yn ddibynnol ar sicrhau gwybodaeth a chyfathrebu clir, syml a chyson nid yn unig yn allanol ond yn fewnol o fewn y gwasanaeth yn ogystal.

Mae'r amserlen yn dangos bod angen hyd at 18 mis i weithredu'r newid drwy'r Sir. Mae dyddiadau cychwynnol ar gyfer cyflwyno'r newid fesul ardal o Wynedd fel a ganlyn:

Ardal Dwyfor: 6 Hydref, 2014
Ardal Meirionnydd: 9 Mawrth, 2015
Ardal Arfon: 8 Mehefin, 2015

The Council's Waste Strategy for the period 2010 to 2025 was adopted by the Council in its meeting of 21 January, 2010.

The aim of the Waste Strategy is to protect the environment and ensure sustainable communities. It can be summarised as follows:

'to reduce the amount of waste produced and to substantially reduce our dependency on landfill by increasing recycling and composting levels'.

The Waste Strategy contains 12 steps to be implemented in order to achieve the Strategy. The measure being considered here by the Cabinet is:

Reduce the size of the residual waste receptacle (2010 onwards)
- *current standard green bin is 240 litre – this needs to be reviewed in light of reduced usage*
- *consider the option of changing the collection frequency.*

Currently, residual waste is collected from Gwynedd households by means of 240 litre size bins (or 3 black bags) every fortnight i.e. at alternate weeks with the garden waste bin (brown wheeled bin).

Recent surveys of the contents of Gwynedd's residents' residual bins have

shown that close to 50% of the waste in the bin is food waste and waste that can be easily recycled. This is despite there being a weekly service for the collection of these materials. The fact that this waste goes straight to landfill jeopardises the Council in terms of exceeding its Landfill Allowance and hinders the Council in terms of meeting its statutory recycling targets – with the possibility of attracting significant financial penalties as a consequence.

At a recycling level of 51.25% in 2012/13, Gwynedd Council narrowly missed having to face a fine of £123,200 from the Welsh Government for failing to meet a statutory target of 52% for the year. Recycling targets of 58% for 2016, and 70% by 2025 have to be met in the future. This change is necessary in order to have certainty that these targets will be met.

It is essential that changes to current residual waste collection arrangements from domestic properties in Gwynedd be introduced if the Waste Strategy is to be achieved; if statutory targets are to be met in terms of landfill allowance and recycling targets and in order to avoid significant financial penalties for the Council.

Once introduced throughout the County, it is envisaged that collecting residual waste at 3 weekly intervals will realize savings in the order of £350k per annum for the Council. This is after taking into account the costs associated with dealing with exceptions such as collecting nappies at fortnightly intervals, collecting fortnightly in areas of high student population and providing larger bins for larger families.

When considering the dire financial prospects facing the Council in the next 4 years, with the possibility of up to £50 million reduction in the Council's budget during the period; the savings envisaged as a consequence of this change will be of assistance and significantly benefit the Council.

A Residents' Panel Survey and Public Survey were held, in addition to Engagement with Members and Focus Groups, and the main findings were as follows:

- *Over 90% of Gwynedd's residents agree that the Council should take further steps to encourage more residents to recycle and compost waste and in order to avoid fines.*
- *The need for clear and simple information given to explain recycling arrangements.*
- *The need to continually inform and educate children on recycling and in order for them to take what is learnt home.*
- *The same concerns were raised by residents and Members throughout Gwynedd regarding the possible option of collecting residual waste at intervals of 3 weeks, however, approximately 47%*

of residents stated that they would have no concerns at all with this change.

- *The concerns raised included issues relating to public health and dealing with nappies and odours; practical concerns relating to the service and problems relating to specific areas or groups such as holiday homes and student residencies.*
- *The potential to increase participation in the weekly food waste collection service by urging residents to change their behaviour.*

The Engagement Team will have a key role to play in implementing the Engagement Plan required in introducing the changes. The main objective will be to market the new service by promoting participation and behavioural change. The success of implementing the change will be dependent on ensuring clear, simple and consistent communication not only with residents but internally within the Service.

The timetable shows that it will take up to 18 months for the change to be implemented throughout the County – and only if a decision can be reached by the Cabinet early in the financial year to effect the change. The preliminary dates for the introduction of the new collection arrangement in the three areas of Gwynedd are as follows:

Dwyfor Area: 6 October, 2014
Meirionnydd Area: 9 March, 2015
Arfon Area: 8 June, 2015

Sylwadau neu bwyntiau croes / *Observations or opposing views*:-

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd, trafodwyd y ffaith fod y broses ymgysylltu wedi bod yn un hynod werthfawr ac y bydd y broses ymgysylltu yn parhau wrth i'r newidiadau gael eu cyflwyno. Nodwyd fod y broses hon yn enghraifft o'r modd y mae'r berthynas yn newid rhwng y wladwriaeth a'r dinesydd ac yn amlygu'r ffaith fod gan drigolion Gwynedd hawliau yn ogystal â chyfrifoldebau. Nodwyd mai'r hyn y mae'r Cyngor yn ei ddarparu ydy gwasanaeth casglu wythnosol ond bod mathau gwahanol o wastraff domestig yn cael eu casglu bob wythnos. Trafodwyd y ffaith fod angen i swyddogion y Cyngor fod yn hyblyg wrth i newidiadau gael eu cyflwyno, yn enwedig pan fo'r newidiadau hynny yn effeithio ar bobl mwyaf bregus o fewn cymdeithas. Eglurwyd yn ogystal fod ystyriaethau ariannol pwysig yma ond yn y pen draw, yr hyn sydd yma mewn gwirionedd yw ymdrech i amddiffyn yr amgylchedd.

Following the report being presented by the Cabinet Member for the Environment, a discussion was held on the fact that the engagement process had been extremely valuable, and that this engagement process

would continue as the changes were introduced. It was noted that this process was an example of the way in which the relationship between the state and the citizen was changing, highlighting the fact that Gwynedd's citizens had rights as well as responsibilities. It was noted that the Council provided weekly collection services, with different types of waste being collected each week. The need for Council officials to be flexible as the changes were introduced was discussed, especially when those changes affected the most vulnerable people within society. It was also explained that there were important financial considerations here, but that in essence, this was an effort to protect the environmnent.

Barn y swyddogion statudol / *Views of the Statutory Officers:*

Y Prif Weithredwr:
Mae'r sefyllfa sydd yn wynebu'r Cyngor yn y maes hwn yn amlwg – targedau ail-gylchu heriol a'r perygl o ddirwyon am dir-lenwi gormodol ar adeg pan y mae'n rhaid i'r Cyngor hefyd wneud arbedion ariannol. Mae'r holl faterion hyn a'r gwaith dadansoddi sydd wedi digwydd yn dod a ni at gasgliad mai'r ateb gorau o ran y drefn casglu gwastraff gweddilliol yw symud i wneud hynny bob tair wythnos. Rwy'n falch bod y gwaith ymgysylltu diweddar wedi dangos dealltwriaeth eang o'r angen i gynyddu lefelau ailgylchu a hefyd awgrymiadau ymarferol gan drigolion am ffyrdd o'u cefnogi wrth wneud hynny. Rwy'n cymell yr argymhelliad yn gryf.
The Chief Executive
The situation facing the Council in this field is apparent – ambitious recycling targets and the threat of financial penalties should there be excessive use of landfill; and this is a period when the Council has to make financial savings. All these considerations and evaluation has brought us to the conclusion that the nest solution is to change to 3 weekly collection of residual waste. I am pleased that the recent engagement exercise has shown that there is a wide understanding of the need to increase recycling and has evoked practical suggestions from residents regarding ways to assist them in this respect. I strongly support the recommendation.

Y Swyddog Monitro:
Yn sgil yr ymgynghori eang sydd wedi digwydd, yr asesiad effaith ar gydraddoldeb, a'r mesurau a gynigir i liniaru effaith ar rai carfannau o gymdeithas, rwy'n fodlon gyda phriodoldeb yr argymhelliad.
The Monitoring Officer:
As a consequence of the extensive consultation carried out, and the assessment of the effect on equality and the measures proposed to mitigate the effect on groups within the community, I am satisfied with the proprietary of what is recommended.

Y Pennaeth Cyllid:

Er mwyn cyrraedd targedau statudol lwfansau tirlenwi ac osgoi dirwyon sylweddol, rhaid cyflwyno newid i'r drefn bresennol o gasglu gwastraff gweddilliol. Ystyriwyd tri opsiwn mewn manylder cyn dod i'r casgliad mai casglu bob 3 wythnos fyddai orau i'r Cyngor, o safbwynt cynnydd mewn lefel perfformiad ailgylchu ynghyd a sicrhau arbedion ariannol i'r Cyngor. Gwelir o'r achos busnes y bydd effaith ar lefel staffio, felly nodaf y bydd angen cyfraniad un-tro o'r gronfa ddiswyddo i'r perwyl hyn. Mae'r achos ariannol wedi'i amlinellu yn rhan 3.2.7 o'r Adroddiad. Rhagwelir arbedion oddeutu £ 350k gyda'r drefn yma o gasglu, fydd yn cyfrannu £ 250,000 tuag at gynllun cyfredol sydd gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, a £ 100,000 (neu £ 150,000 efallai) tuag at y rhaglen arbedion 2014/15 – 2017/18.

The Head of Finance:

In order to meet statutory landfill allowance targets and avoid substantial financial penalties, it will be necessary to change the current arrangement for collecting residual waste. Three options were considered in detail before reaching the conclusion that 3 weekly collections was the best option for the Council in terms of increasing recycling performance levels and ensuring financial savings for the Council. I note from the business case that there will be an effect on staffing levels and note that there will need to be a one-off contribution from the redundancy fund for the purpose. The financial case is detailed in section 3.2.7 of the Report. Approximately £350k savings is expected with this change, which will contribute £250k towards the current Highways and Municipal savings scheme and, in addition contribute a further £100000 (possibly £150000) towards the 2014/15 – 2017/18 savings programme.

Barn yr aelod lleol / *Views of the Local Member*

Dim yn berthnasol
Not relevant.

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET Y CYNGOR/ COUNCIL CABINET DECISION NOTICE

Dyddiad/Date 20140429

PWNC / SUBJECT

Eitem 7 - Perfformiad - Mesuryddion Haen 1: Lefelau Uchelgais ar gyfer 2014/15
Item 7 - Performance – Tier 1 Measures: Ambition Levels for 2014/15

PENDERFYNIAD / DECISION

Mabwysiadu'r uchelgais ar gyfer Mesuryddion Haen 1 y Cyngor.
To adopt the ambition for the Council's Tier 1 Measures.

Rhesymau dros y penderfyniad / Reason for the decision:-

Mesuryddion Haen 1 yw Mesuryddion Allweddol Y Cyngor sydd un ai yn:

- Bwysig i fywyd dydd i ddydd pobl Gwynedd, neu yn
- Adlewyrchu iechyd corfforaethol y Cyngor.

Bydd y mesuryddion yn cael eu cyhoeddi yn rhan o'r Cynllun Strategol a gyflwynir i'r Cyngor ar 1 Mai 2014.

Gofynnir i'r Cabinet fabwysiadu'r uchelgais er mwyn gwneud yn siŵr fod yr Aelodau Cabinet yn adrodd a rheoli perfformiad yn gywir ac effeithiol.

Mae'r uchelgais sy'n cael ei chynnig yn seiliedig ar y canlynol:

- Lle'r ydym eisiau bod – ein gweledigaeth a'n nod, ein hymrwymiad i wella gwasanaethau i drigolion Gwynedd.
- Y stori tu ôl i'r perfformiad – tystiolaeth o'n perfformiad blaenorol ni, ein safle o'i gymharu ag awdurdodau gweddill Cymru, safonau disgwyliedig.
- Dylanwadau – e.e. adnoddau sydd ar gael, disgwyliadau perfformiad.

The Tier 1 Measures are the Council's Key Measures which are either:

- *Important to the day to day lives of the people of Gwynedd, or*
- *Reflect the corporate health of the Council.*

The measures will be published as part of the Strategic Plan submitted to the Council on 1 May 2014.

The Cabinet is asked to adopt the ambition in order to ensure that the Cabinet Members report and manage performance accurately and effectively.

The ambition which is submitted is based on the following:

- *Where we want to be – our vision and goal, our commitment to improve services for Gwynedd residents.*
- *The story behind the performance – evidence of our previous performance, our position in comparison with authorities in the rest of Wales, required standards.*
- *Influences – e.g. resources available, performance expectations.*

Sylwadau neu bwyntiau croes / *Observations or opposing views*:-

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad gan yr Arweinydd, eglurwyd bod angen cywiro un gwall yn y wybodaeth a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod. Ar dudalen 73 yng nghyfeirnod olaf un y tabl (CD11.01) yn y golofn Perfformiad 2013/14 yr hyn ddylai fod yno yw 96.8 yn hytrach na 85.4. Nodwyd y ffaith bod angen ailfeddwl y geiriad 'Bodlon gweld gostyngiad' ac 'Am y tro' yn y golofn Cyfeiriad Uchelgais yn y Gymraeg ac yn y Saesneg gan fod y cymalau yn swnio'n negyddol ac annelwig. O ran datblygiad economaidd, nodwyd fod yr economi yn flaenoriaeth gan y Cyngor ond bod angen meddwl beth yw rôl y Cyngor ei hun o ran sicrhau'r amgylchedd hyfyw ar gyfer cynorthwyo trigolion i gychwyn cwmniau eu hunain.

Following the Leader's presentation of the report, it was explained that there was one correction to be made to the information distributed prior to the meeting. On page 73 in the last reference of the table (CD11.01) in the Performance 2013/14 column the figure should read 96.8 instead of 85.4. It was noted that the wording of 'prepared to see a decline' and 'for now' should be reconsidered in the 'Direction of Ambition' column in both Welsh and English as the clauses sounded negative and ambiguous. Regarding economic development, it was noted that the economy was one of the Council's priorities, but that thought needed to be given to the role of the Council itself in ensuring a viable environment to assist residents to start their own businesses.

Barn y swyddogion statudol / The views of the Statutory Officers:-

1. Y Prif Weithredwr / Chief Executive:-

Fel y mae'r adroddiad yn nodi, mae'r gyfres o fesuryddion hyn yn bwysig gan ei fod yn crynhoi uchelgais y Cyngor ar nifer o fesuryddion sydd yn bwysig i fywyd pob dydd ac yn adlewyrchu iechyd corfforaethol y Cyngor. Mae dau bwynt penodol y dylid ei wneud eleni. Yn gyntaf, mae'n gwbl briodol bod y nifer o fesuryddion yn y gyfres yn lleihau wrth i'r Cyngor ddod yn fwy eglur am y prif bethau y mae'n bwysig eu mesur. Yn ail, yn y cyd-destun ariannol presennol, mae cynnal a bod yn fodlon gweld gostyngiad yn gwbl briodol fel addewidion cyhoeddus gan bod yr her ariannol sydd o flaen y Cyngor yn llesteirio ein gallu i addo gwelliant ym mhob maes. Rwy'n cymeradwyo'r gyfres a'r uchelgais sy'n gysylltiedig i sylw'r Cabinet.

As the report notes, this series of measures is important as it summarises the
ambition of the Council on a number of measures which are important to everyday lives and reflect the Council's corporate health. There are two specific points that should be made this year. Firstly, it is appropriate that the number of measures in the series reduce as the Council becomes

clearer about the main issues that are important to measure. Secondly, in the current financial climte, maintaining and being prepared to see a decline are very appropriate as public promises as the financial challenge facing the Council inhibits our ability to promise improvement in all areas. I approve the series and the related ambition for the Council's attention.

2. Swyddog Monitro / Monitoring Officer:-

Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.
Nothing to add in relation to propriety.

3. Prif Swyddog Cyllid / Chief Finance Officer:-

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.
Nothing to add in relation to financial propriety.

Barn yr aelod lleol / Views of the Local Member

Dim yn berthnasol
Not relevant.

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET Y CYNGOR/ COUNCIL CABINET DECISION NOTICE

Dyddiad/Date 20140429

PWNC / SUBJECT

Mater Brys - Pwll Nofio Harlech
Urgent Matter - Harlech Swimming Pool

PENDERFYNIAD / DECISION

1. Gohirio trafodaeth lawn ar y mater tan gyfarfod nesaf y Cabinet ar 20fed Fai er mwyn rhoi cyfle i gael adroddiad manwl a chynllun busnes.
2. Gofyn i'r Pennaeth Gwasanaeth Economi a Chymuned ddarparu'r isafswm
   cymorth ariannol angenrheidiol i gynnal 'Harlech and Ardudwy Leisure Ltd' dros dro, hyd nes bydd penderfyniad Cabinet i ddarparu rhagor o gymorth.

1. *To postpone a full discussion on the matter until the Cabinet's next meeting on 20 May in order to prepare a detailed report and business plan.*
2. To ask the Head of the Economy and Community Service to provide the

minimum financial support that would be necessary to temporarily maintain 'Harlech and Ardudwy Leisure Ltd', pending the Cabinet's decision to provide further support.

.

Rhesymau dros y penderfyniad / Reason for the decision:-

Cyflwynwyd eitem brys er mwyn dod i benderfyniad ar gymorth ariannol i ddiogelu parhad adnodd Pwll Nofio yn Harlech.

An urgent item had been submitted in order to make a decision on financial support to safeguard the continuation of the Swimming Pool as a resource in Harlech.

Sylwadau neu bwyntiau croes / *Observations or opposing views*:-

Yn dilyn cyflwyno'r eitem ar lafar gan yr Aelod Cabinet Gwynedd Iach, roedd yna gefnogaeth gyffredinol i'r egwyddor o gadw'r pwll ar agor ond roedd rhai materion yn peri pryder. Roedd pryder nad oedd yr holl aelodau wedi derbyn copi o'r cynllun busnes a'i fod yn anodd gwneud penderfyniad rhesymol heb gael yr holl ffeithiau o'u blaen. Nodwyd fod sawl aelod a rhai o swyddogion y Cyngor wedi gweld cynllun busnes 'Harlech and Ardudwy Leisure Ltd' a bod asesiad brys wedi'i gyflawni, ond oherwydd amserlen dynn y cwmni, roedd yr eitem wedi gorfod dod o flaen y Cabinet ar fyrder.

O ran dull ariannu sefyllfa fel hon a diwallu'r angen unwaith ac am byth, eglurwyd y byddai modd defnyddio arian sydd eisoes wedi cronni trwy gyflawni arbedion yn gynnar, ond nad oes modd bellach mynd yn ôl i falansau'r Cyngor dro ar ôl tro. Nodwyd yn ogystal pe byddai unrhyw gymorth ariannol yn cael ei ddyfarnu, yna fe fyddai'n hanfodol bod amodau caeth o ran monitro ac atebolrwydd.

Roedd yr aelodau yn ystyried hyn yn benderfyniad hynod o anodd i'w wneud ond bod yn rhaid iddynt ar yr un pryd fod yn gyfrifol ac ystyried nifer o ffactorau e.e. yr hinsawdd economaidd dybryd a'r arbedion sy'n wynebu'r Cyngor. Gan fyddai hyn yn gallu gosod cynsail, roedd aelodau yn awyddus i wybod beth yn union yw'r risg i barhad yr adnodd wrth gyfrannu arian tuag at y fenter.

Oherwydd yr holl bryderon a'r ffaith nad oedd yr Aelodau yn credu fod yr holl wybodaeth ganddynt i'w galluogi i wneud penderfyniad cyfrifol, yr awgrym oedd y dylid gofyn i Bennaeth y Gwasanaeth Economi a Chymuned ddarparu cymorth ariannol dros dro fyddai'n cynnal y cwmni hyd nes bod modd i'r holl Aelodau gael darllen adroddiad manwl a chynllun busnes y cwmni, a chael trafodaeth bellach cyn dod i benderfyniad tymor

hir yng nghyfarfod y Cabinet Ffurfiol ar Fai'r 20fed 2014.

Following a verbal presentation on the item be the Cabinet Member - Healthy Gwynedd, there was overall support for the principle of keeping the pool open, but there were some matters which caused concern. There was concern that some members had not received a copy of the business plan and that it was difficult to make a reasoned decision without having all the facts to hand. A number of members and some Council officers had seen Harlech and Ardudwy Leisure Ltd's business plan and an urgent assessment had been conducted, but due to the company's tight timetable, the item had had to be submitted urgently to the Cabinet.

Regarding the funding method for such a situation, and the need to meet the one-off requirements, it was explained that it would be possible to use funding that had already been acquired through savings that had been realised early, but that it would not be possible to return time after time to the Council's balances. It was also noted that if any financial assistance was providedm that it would be essential to put stringent monitoring and accountability conditions in place.

Members believed that this was a difficult decision to make but at the same time that they had to be responsible and consider a number of factors e.g. the grave economic climate and the savings facing the Council. As this could set a precedent, members were eager to know exactly what the risk was to the continuation of the resource when contributing funding towards the initiative.

Due to all of the concerns and the fact that Members did not believe that they had all the information to enable them to make a responsible decision, a suggestion was made to ask the Head of Economy and Community Department to provide temporary financial support that would sustain the company until it would be possible for all Members to have read a detailed report and the company's business plan, and hold a further discussion before reaching a long-term decision at the Formal Cabinet's meeting on 20 May 2014.

Barn y swyddogion statudol / The views of the Statutory Officers:-

1. Y Prif Weithredwr / Chief Executive:-

2. Swyddog Monitro / Monitoring Officer:-

3. Prif Swyddog Cyllid / Chief Finance Officer:-

Barn yr aelod lleol / Views of the Local Member

Diolchodd yr Aelod lleol am y cyfle i ddod i ddatgan ei farn am fater Pwll Nofio Harlech. Roedd am ganmol y criw o 9 gwirfoddolwr gwreiddiol benderfynodd roi eu hysgwyddau o dan y baich o redeg y pwll nofio pan benderfynodd y Cyngor gau'r adnodd. Mae'r criw gwreiddiol bellach yn 3 ond mewn cyfarfod cyhoeddus diweddar yn Theatr Harlech, daeth 200 o drigolion lleol yno i ddatgan cefnogaeth ac i gynnig syniadau adeiladol a chadarnhaol ynghylch datblygu'r safle. Nododd yr Aelod Lleol fod y pwll nofio a'r ganolfan ddringo ar y safle yn bwysig o ran denu twristiaid i Ardudwy a bod y gwaith diweddar ar Bont Briwet, sydd wedi golygu bod y bont ar gau am rai misoedd, wedi cael effaith niweidiol ar nifer y defnyddwyr. Dywedodd fod 400 o blant o 8 ysgol yn defnyddio'r pwll a bod y ganolfan ddringo a'r caffi yn denu nifer dda. Credai, yn bwysicach na dim arall, fod angen canmol y criw o wirfoddolwyr am fod yn fodlon ysgwyddo'r baich mewn cyfnod anodd lle mae nifer fawr o ganolfannau tebyg yn wynebu cau.

The Local Member gave thanks for the opportunity to come and express his opinion regarding the Harlech Swimming Pool issue. He wished to praise the original crew of nine volunteers who had decided to shoulder the burden of running the swimming pool when the Council had decided to close the resource. The original crew had now reduced to three but at a recent public meeting in Theatr Harlech, 200 local residents had attended to express support and to offer constructive and positive ideas regarding development of the site. The Local Member noted that the swimming pool and climbing centre on the site were important in terms of attracting visitors to Ardudwy and that the recent work on Briwet Bridge, which had meant that the bridge had been closed for some months, had had a detrimental impact on the number of users. He said that 400 children from eight schools used the pool and that the climbing centre and café were attracting a good number of people. More important than anything else, he believed that there was a need to praise the crew of volunteers for being willing to shoulder the burden in a difficult period when a large number of similar centres were facing closures.